# Ymagwedd strategol Prifysgol Bangor at ficro-gymwysterau

Lois McGrath, Rheolwr Portffolio Datblygiad Proffesiynol, Coleg Meddygaeth ac Iechyd, Prifysgol Bangor

## Cefndir a chyd-destun

Mae Prifysgol Bangor, gyda'i chenhadaeth ddinesig 140 mlynedd wedi'i gwreiddio mewn ehangu mynediad at addysg, yn ailsefydlu ei hymrwymiad i ddysgu gydol oes trwy ffocws strategol ar ficro-gymwysterau. Cafodd integreiddio dysgu gydol oes yn ei fframweithiau academaidd a strategol craidd ei sbarduno gan Gronfa Arloesedd Ymchwil Cymru ac mae bellach yn thema ganolog yn Strategaeth 2030 y Brifysgol. Un galluogwr allweddol fu datblygu fframwaith mewnol i ddiffinio a gwahaniaethu cyrsiau byr, gan alinio â Datganiad Nodweddion Micro-gymwysterau QAA.

## Ymagwedd ddeublyg

Mae Bangor wedi mabwysiadu dwy brif ymagwedd at ymdrin â micro-gymwysterau:

1. **Micro-gymwysterau annibynnol**: Wedi'u datblygu o dan gynllun peilot a ariannwyd gan CCAUC, bwriadwyd y rhain yn wreiddiol ar gyfer eu cyflwyno trwy *FutureLearn,* ond fe'u cyflwynwyd yn fewnol oherwydd problemau gyda'r platfform. Er i hyn fod yn heriol yn weithredol, a bod y niferoedd a gyfranogodd yn isel, cafwyd dysgu gwerthfawr yn sgil hyn.
2. **Modiwlau wedi'u hagor**: Yr hyn fu’n fwy llwyddiannus oedd ailbecynnu modiwlau presennol o raglenni mewn iechyd, meddygaeth, gwyddor chwaraeon ac addysg fel micro-gymwysterau annibynnol. Mae'r model hwn wedi profi'n fwy cynaliadwy ac yn haws adeiladu arno, gan alinio â galluoedd sefydliadol ac anghenion dysgwyr.



## Gwersi a ddysgwyd

Gellir categoreiddio gwersi a ddysgwyd o heriau a rhwystrau fel meysydd mewnol ac allanol:

- Roedd yr **heriau mewnol** yn cynnwys systemau cymhleth ar gyfer cofrestru a chynhyrchu trawsgrifiadau, diffyg ymwybyddiaeth sefydliadol o ficro-gymwysterau ac anhawster cael mynediad at ddata y gellid ei ddefnyddio i ddangos tystiolaeth o effaith. Fodd bynnag, mae cydweithio cryf rhwng timau gwasanaethau academaidd a phroffesiynol wedi dod i'r amlwg fel ffactor allweddol o ran llwyddiant.
- Roedd y **rhwystrau allanol** yn cynnwys dryswch eang ymhlith dysgwyr a chyflogwyr ynghylch beth yw micro-gymwysterau, yn ogystal â phroses gofrestru drafferthus a oedd yn atal dysgwyr achlysurol. Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae diddordeb cyflogwyr mewn cydweithio yn tyfu ac mae micro-gymwysterau'n cael eu hystyried yn declyn gwerthfawr ar gyfer alinio addysg ag anghenion y farchnad lafur.

## Cynlluniau presennol a chynlluniau'r dyfodol

Ar hyn o bryd mae Bangor yn ailbecynnu modiwlau annibynnol ôl-gofrestru mewn Gwyddorau Iechyd fel micro-gymwysterau, ac mae mwy o gynigion ar y gweill. Mae'r Brifysgol yn llywio cyfnod o newid strwythurol, sy'n tanlinellu'r angen am hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i ddemograffeg ac ymddygiadau esblygiadol dysgwyr.

Mae strategaeth Medr 2025–2030 Llywodraeth Cymru yn galw am system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig. Mae Bangor yn ystyried micro-gymwysterau fel mecanwaith allweddol i gyflawni'r weledigaeth hon. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus a chefnogaeth sefydliadol.

Rydym wedi ymrwymo i gydweithio parhaus, yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae Bangor yn ymwneud yn weithredol â rhwydweithiau cenedlaethol gan gynnwys Cymdeithas y Prifysgolion ar gyfer Dysgu Gydol Oes (UALL).

Mae profiad Prifysgol Bangor yn dangos addewid a chymhlethdod integreiddio micro-gymwysterau mewn addysg uwch. Trwy aliniad strategol, cydweithio mewnol ac ymgysylltu allanol, mae Bangor yn gosod ei hun fel arweinydd mewn dysgu hyblyg, sy'n canolbwyntio ar sgiliau ar gyfer y dyfodol.


Cyflwynwyd yr astudiaeth achos hon yng ngweminar QAA Cymru 'Cardiau-post micro-gymwysterau o'r Gwledydd: Digwyddiad rhannu arferion â ffocws ar ddatblygu micro-gymwysterau ledled y DU' ar 3ydd Mehefin 2025. Roedd y weminar yn rhan o waith y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG) a ariennir gan Medr.

Allwch ddysgu mwy am MIC.SIG ar wefan QAA Cymru.